



Cofnodion Cyfarfod 18-07-19 – 6.00pm

- Presennol** Cynghorwyr John Emlyn Jones (Cadeirydd), John Lloyd Williams, Gwenan Roberts, Ceri Leeder, Arthur Williams a Delyth Wynne (Clerc)
- Ymddiheuriadau** Cynghorwyr Phyllis Purchase, Austin Roberts, Wendy Williams, Geraint Owen a Gwilym Williams

1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. YMDDIHEURIADAU

Gweler uchod.

3. DATGAN DIDDORDEB

Dim.

4. MATERION YN CODI

- **Cyfrifon 2018/19 - Adroddiad Awdit Mewnol:**
- Aeth y Cadeirydd trwy'r adroddiad awdit mewnol. £8,643.00 ar ôl ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Marion Pryor, wedi gyrru copi o'r adroddiad i'r Cadeirydd a fydd yn ei yrru i'r holl Gynghorwyr. Argymhellion yn cynnwys:
 - Angen hawlio TAW;
 - Aelodau i fynegi diddordeb fel yr angen;
 - Aseiad o risg ac amcanion y Cyngor Cymuned;
 - Cymodi datganiadau banc;
 - Y Clerc i dderbyn hyfforddiant mewn materion ariannol.
- Y Cynghorwyr yn hapus ac yn cytuno i fandad banc newydd gyda 3 Cynghorydd yn medru arwyddo sieciau;
- Y Cynghorwyr yn cytuno yr adroddiad awdit blynyddol, a gafodd ei arwyddo yn ystod y cyfarfod, yn barod i'w yrru at yr archwilydd allanol.

5. CYNLLUNIO

0/46449 Mr William Greenwood (Gerddi Bodnant)
Newid defnydd - Bwthyn Pen Garddwr i fod yn swyddfeydd, ymestyn y bwthyn, codi adeilad Lles ac adeilad Storio Garddwriaethol.

Dim gwrthwynebiad.



0/40806 Helmydd, Trofarth, Bae Colwyn

Adeiladu Mynediad ac gwaith ategol ar gyfer Helmydd (Rhannol Ôl-Weithredol)

Dim gwrthwynebiad.

10. DYDDIADAU Y CYFARFODYDD NESAF

03/09/19, 01/10/19, 05/11/19, 03/12/19.